

Tonnau a Tswnamis eto

Diolch i Gareth Wyn Jones am ei erthygl ar ‘Y Dyrchafol heb y Dyrchafael – Wedi’r Duw Abramaidd’ (*Y Traethodydd*, Ebrill 2010) yn ymateb i’ m hysgrif, ‘Tonnau Deallusol – Tswnamis Mawr y Meddwl’ (*Y Traethodydd*, Ionawr 2009). Gresyn nad oes amser i fynd ar ôl y pwyntiau i gyd dan sylw, yn enwedig ar yr ochr athronyddol. Cryno ac annigonol, felly, yw’r ymateb isod.

1. Yn groes i osodiad Gareth Wyn Jones, nid oeddwn yn dadlau naill ai o blaid neu yn erbyn y safbwynt fod rheswm yn arwain at y ffydd Gristnogol; yn hytrach, yr oeddwn yn disgrifio’r traddodiad a gynrychiolir gan Acwin a Locke. Eithr efallai nad oedd hyn yn ddigon clir yn f’erthygl. Priodolir i mi hefyd y gosodiad: ‘Amhosibl i ni brofi neu wrthbrofi neu hyd yn oed ddangos tebygolrwydd neu annhebygolrwydd yn wyddonol neu yn athronyddol nifer o osodiadau crefyddol fel: Atgyfodir y meirw’ (‘Y Dyrchafol’, 80). Ond disgrifiad o safbwynt Locke oedd gennyf yma ac fe ddywedais yn glir: ‘Nid wyf yn poeni, fan hyn, a oedd Locke yn gywir neu yn anghywir yn ei ddadl a’i ganlyniad’ (‘Tonnau’, 7). Syndod oedd darllen ymhellach fod yr ‘Athro Nantlais Williams yn pwysu’n drwm ar ddadl ‘yr achos cyntaf’ (‘Y Dyrchafol’, 82). Yn lle? Pan gyfeiriais at y pwnc, dyma a ddywedais: ‘Nid wyf am asesu’r ddadl hon...’ (‘Tonnau’, 10) ac i sicrhau (!) nad oedd camddealltwriaeth yn bosibl, dyma bwysleisio y gair ‘os’ yn y paragraff nesaf. ‘Pwysu’n drwm’?

2. Beth am sylwedd sylwadau GWJ ar y materion uchod? Ar ôl ceisio darllen ei eiriau yn ofalus, casglaf ei fod yn meddwl fod y cwestiwn: ‘Pwy a greodd Dduw?’ yn gwestiwn perthnasol i’r traddodiad Abramaidd (‘Y Dyrchafol’, 82). Ond y ffaith yw nad yw’r cwestiwn hyd yn oed yn ystyrllon. Beth fyddai’r gwyddonydd yn ei ddweud wrth grefyddwr anwyddonol a ofynnai: ‘A yw Jupiter yn blaned cyfiawn neu anghyfiawn?’ Beth fyddai GWJ yn ateb i’r anffyddiwr a ofynnai: ‘Beth, yn ôl y traddodiad Abramaidd, yw lliw gwallt Duw?’ Cyfyd ystyriaethau pwysig o gwmpas ystyr ‘Duw’. Mae GWJ fel petai’n trin y cysyniad traddodiadol Cristnogol am Dduw fel rhyw fath o hypothesis gwyddonol i’w drafod ar ddull esboniad materol, hyd yn oed os nad yw Duw ei hun yn faterol. Eithr nid dyna swyddogaeth ac ystyr y gair ‘Duw’ yn yr Ysgrhythrau. A phan drowm at atgyfodiad y meirw, mae GWJ yn gosod dewis (‘Y Dyrchafol’, 80-81): naill ai atgyfodiad corfforol ‘ar ôl i’r celloedd ddatgymalu...’ neu atgyfodiad ysbrydol, ill dau yn broblemataidd am wahanol resymau. Ond mae Paul yn mynd i drafferth i ddangos fod camddealltwriaeth wrth wraidd y syniad o ‘gorff’ sydd yn ymhlygiedig yn y dewis hwn (1 Corinthiaid 15:35-50). Dim syndod nad yw gwyddonydd fel John Polkinghorne yn cael dim anhawster gwyddonol i gredu yn atgyfodiad y meirw (e.e., *One World: the interaction of Science and Theology*, Llundain: SPCK, 1986, 76-77).

3. Cred GWJ fy mod yn apelio at destun awdurdodol y Beibl wrth apelio at ‘hanes’. Ond beth oedd fy nadl mewn gwirionedd? Hyn: sffêr hanes, yn hytrach na’r bydysawd, yw sffêr *honedig* y prif ddatguddiad o Dduw. Yn awr, os yw’r gwyddonydd am faentumio fod yn rhaid i ni fynd ati i drin hanes yn briodol wyddonol (h.y., pwysu tystiolaeth ac ati), gadewch i ni gyd-fynd. O safbwynt yr hanesydd, felly, beth yw tebygolrwydd neu annhebygolrwydd digwyddiad hyn a hyn a adroddir yn yr Efengylau? Sut mae mesur ac asesu eu tystiolaeth? Os ydyw rhywun am ddweud: ‘*Fel hanesydd*, casglaf fod hyn a hyn yn fwy tebygol nag annhebygol o ran dilysrwydd y dystiolaeth’, beth ddylai’r gwyddonydd *rhesymol* ei gredu ynglŷn â’r hanes? Ac os yw’r hanesydd am ddweud: ‘*Fel*

hanesydd, amhosibl penderfynu un ffordd neu'r llall, heb ddwyn rhagdybiaethau eangach i fewn i'r ddadl', beth yw ymateb y gwyddonydd *rhesymol*? Yn rhesymegol, nid oes dim yn nadl *gyffredinol* GWJ yngl'n â hanes o anghenraid yn effeithio ar dystiolaeth *benodol* yr Efengylau. Ac os yw am fanylu, sut y mae'n pwysu cyfraniadau ysgolheigion fel N.T.Wright a Richard Bauckham i'r drafodaeth ar yr Efengylau?

4. Prif siom GWJ yw fy mod yn methu mynd i'r afael â'i bwynt yngl'n â 'phwrpas' wrth drafod bodolaeth neu anfodolaeth Duw daionus yng nghyd-destun y drwg sydd yn y byd. Maentumia fy mod yn pwysleisio pwrpas cudd Duw cariad. Ond sylwer eto ar swyddogaeth fy apêl at 'bwrpas'. Heb ailadrodd y ddadl: mae pwrpas *unrhyw* un – anghofiwch am Dduw – yn 'gudd' ar ryw lefel. Mae pwrpas Duw – yng Nghrist – yn agored ar ryw lefel. Nid oes yr un system, grefyddol neu anffyddiol, yn medru cwmpasu mewn un fframwaith rhesymol pob ffenomenon: bodolaeth y byd; natur y byd; y drwg; y da; moesoldeb; hanes; bywydau a phwrpasau personol; bodolaeth neu anfodolaeth Duw. Pwysleisir problem y drwg yn y Beibl ymhell cyn i wyddoniaeth fodern ei geni. Hen amheuaeth sydd gan GWJ yn y pen draw: anodd cysoni bodolaeth Duw cariadlawn a hollalluog â'r poen, dioddef a drwg sydd yn y byd. Hollol deg. Ond nid yw *gwyddoniaeth* yn ychwanegu dim at y broblem. Dyma oedd fy mhwynt i.

Cynhaliodd y Faraday Institute gwrs yng Nghaergrawnt rhwng Gorffennaf 11-17 ac ymhlith y darlithwyr fe gynhwyswyd yr Athrawon Katherine Blundell (Astroffiseg) o Rydychen, Stephen Blundell (Ffiseg) o Rydychen, yr Athro Emeritws John Bryant (Bywydeg) o Exeter, yr Athro Simon Conway Morris (Palaeofywydeg Esblygiadol) o Gaergrawnt, Jennifer Wiseman, Cyfarwyddwr Prosiect Hubble yn NASA, heb sôn am eraill o fri, gyda John Polkinghorne ei hun yn eu canol, a Chyfarwyddwr ac Is-Gyfarwyddwr Sefydliad Faraday, ill dau yn wyddonwyr, wrth law. Credant i gyd fod gwyddoniaeth a ffydd Gristnogol yn gyson â'i gilydd. Wrth gwrs, gellid enwi eraill yr un mor amlwg sydd yn anghytuno. Ond fe'm trawodd i yn gyson dros y blynyddoedd mai cwestiynau diwinyddol neu athronyddol, ac nid rhai gwyddonol, yn y bôn, sydd yn llywio ein hargyhoeddiadau yngl'n â chrefydd. Yn wir, credaf fod 'diwinyddol' ac 'athronyddol' yn eiriau braidd yn rhy ymenyddol; mae ein hymatebion dirfodol a gwaelodol yn aml yn fwy sylfaenol byth. O bosib', fe fydd Gareth Wyn Jones a minnau yn gytûn yn y fan hon.

STEPHEN NANTLAIS WILLIAMS
Coleg Diwinyddol Union
Belfast